**Rhif: WG48109**

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Pysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy

Ymgynghoriad ar gau Pysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy yn unol ag Is-ddeddf 13a hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ("NWNWSFC")

21 Awst 2023

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN:978-1-83504-551-0

## **Cefndir.**

Yn unol ag Is-ddeddf 13A (Cocos a Chregyn Gleision - Rheoli'r Bysgodfa) a wnaed gan hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ("NWNWSFC"), caiff Gweinidogion Cymru gau unrhyw bysgodfa gocos neu gregyn gleision i reoli'r bysgodfa neu i reoli'r raddfa y cesglir ohoni. Cyn cymryd y cyfryw gamau, bydd Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gwyddonol bod angen cau'r bysgodfa a bydd wedi ymgynghori â'r bobl neu'r cyrff hynny sydd yng ngolwg Gweinidogion Cymru yn cynrychioli pysgotwyr cocos a chregyn gleision yr ardal.

Mae Tîm Gwyddonol Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru wedi cynnal yr asesiad amgylcheddol angenrheidiol mewn cysylltiad â'r cynnig i gau'r bysgodfa a chyfyngu ar y pysgota am gregyn gleision ym Mae Conwy. Casgliad yr asesiad amgylcheddol, cyn belled ac y cedwir at y cyfyngiadau a nodir isod, yw bod:

"Swyddogion Gwyddonol Llywodraeth Cymru yn credu y tu hwnt i bob amheuaeth wyddonol resymol na fydd effeithiau rhagweledig y cynllun neu'r prosiect ar ei ben ei hun na'r effeithiau rhagweledig hynny o'u hystyried ar y cyd ag effeithiau cynlluniau neu brosiectau eraill, yn cael effaith ddrwg ar integriti unrhyw Safle Morol Ewropeaidd".

Dyma'r cyfyngiadau y bydd yn rhaid cadw atyn nhw:

a. bod yr awdurdodiadau'n cwmpasu'r cyfnod o 00.01 1 Medi 2023 tan 23:59 30 Ebrill 2024;

b. nad oes mwy na 22 o gasglwyr yn pysgota ym Mhysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy;

c. na fydd y casglwyr yn gweithio o gychod ond pan fydd o leiaf 1 metr o ddŵr o dan y cwch;

d. bod y cregyn gleision yn cael eu casglu trwy'r dull traddodiadol â rhaca law o gwch bychan, gan ddefnyddio rhaca law nad yw'n fwy na metr o led.

Rhaid i'r pysgotwyr awdurdodedig gydymffurfio hefyd â phob deddfwriaeth arall sy'n berthnasol (gan gynnwys is-ddeddfau eraill yr hen NWNWSFC, gan gynnwys (Is-ddeddf 15) y gwaharddiad ar lanio cregyn gleision sydd lai na 45 milimetr o hyd) a rhaid iddynt hefyd gael unrhyw ganiatâd a/neu awdurdod sydd ei angen cyn cynnal unrhyw weithgareddau a ganiateir gan yr awdurdodiadau.

Crynodeb

Ar ôl cynnal yr asesiadau amgylcheddol angenrheidiol yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC), cyhoeddwyd llythyr ymgynghori ar 20 Gorffennaf 2023 gyda dyddiad cau o 20 Awst 2023. Nid oes unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad na gwrthwynebiadau i'r cynnig wedi dod i law Llywodraeth Cymru.

Felly:

- caiff Hysbysiad Cyhoeddus sy'n cau'r Bysgodfa o 00.01 1 Medi 2023 tan 23:59 31 Awst 2024 ei gyhoeddi;

## Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Adran Y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: marineandfisheries@llyw.cymru